



Dyddiad cyhoeddi: 08 Ionawr 2020

Gwasanaethau Penarth

Diolch i chi am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 11 Rhagfyr 2019. Roeddech wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Gwelaf fod Ffigurau Penarth wedi newid ers yr ymateb Rhyddid Gwybodaeth gwreiddiol, heb eglurhad. Allwch chi egluro sut mae'r ddau gais Rhyddid Gwybodaeth wedi cynhyrchu dwy set wahanol o ffigurau?
- Cadarnhewch pryd mae oriau brig y prynhawn ac am faint mae'n para. Fy nealltwriaeth i yw rhwng 1630 a 1830.
- Cadarnhewch gynllun gwasanaeth Penarth ar gyfer 2023+
- Rwy'n deall nad yw nifer y gwasanaethau'n newid o 4 trê'n yr awr ond erbyn hyn mae'n dangos 9 trê'n yn ystod 2 awr prysuraf y prynhawn. A yw hyn yn golygu bod lefel y gwasanaeth yn cynyddu neu a yw amserlen UN trê'n sy'n cychwyn ychydig cyn neu ar ôl yr oriau brig yn y prynhawn wedi cael ei haddasu i'w chynnwys yn y ffigurau?

Rydym yn ysgrifennu atoch i gadarnhau bod eich cais wedi cael ei ystyried o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf), a bod Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi cwblhau'r broses o chwilio am yr wybodaeth roeddech wedi gofyn amdani.

1. Gwelaf fod Ffigurau Penarth wedi newid o'r ymateb Rhyddid Gwybodaeth gwreiddiol heb eglurhad. Allwch chi egluro sut mae'r ddau gais Rhyddid Gwybodaeth wedi cynhyrchu dwy set wahanol o ffigurau?

Rydym wedi canfod gwall yn yr adnodd modelu felly roedd y cyfanswm a'r capasiti eistedd yn y tabl yn amrywio ar reilffordd Rhymni a rheilffordd Penarth. Mae model yn dangos y ffigurau cywir yn y daenlen sydd wedi'i hatodi.



2. Cadarnhewch pryd mae oriau brig y prynhawn ac am faint maen nhw'n para. Fy nealltwriaeth i yw rhwng 1630 a 1830.

Dyma'r oriau brig:

- AM: gwasanaethau sy'n cyrraedd Caerdydd rhwng 07:30 a 09:00
- PM: gwasanaethau sy'n gadael Caerdydd rhwng 16:00 a 18:15

Mae hyn yn cyd-fynd â'r oriau brig a nodir yn y Cytundeb Grant ar gyfer rheoli torfeydd


3. Gan ystyried hyn, cadarnhewch gynllun gwasanaeth Penarth ar gyfer 2023+

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw cynllun y trenau gwasanaeth ar gyfer 2023 wedi'i ddatblygu eto. Yn y cais am gontract, tybiwyd y byddai gwasanaethau Penarth yn cael eu ffurfio'n rhannol gan unedau rheilffordd Rhymni (gwasanaethau gwennol Caerffili) a rhai o unedau rheilffordd Coryton. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bendant ac fe allai newid wrth i ni adolygu gweithrediadau.



- 4. Rwy'n deall nad yw nifer y gwasanaethau'n newid o 4 trên yr awr ond erbyn hyn mae'n dangos 9 trên yn ystod 2 awr prysuraf y prynhawn. A yw hyn yn golygu bod lefel y gwasanaeth yn cynyddu neu a yw amserlen UN trên sy'n cychwyn ychydig cyn neu ar ôl y cyfnod prysuraf yn y prynhawn wedi cael ei haddasu i'w chynnwys yn y ffigurau?**

Mae oriau brig y prynhawn ychydig yn hirach na dwy awr. Mae'r trenau dan sylw wedi'u nodi yn y daenlen isod.



Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru